# Erthygl 6 Pwyllgorau Craffu

## 6.1 Bydd pump Pwyllgor Craffu gydag aelodaeth fel y nodir isod.

| TEITL | AELODAU | CYFRIFOLDEBAU |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol | 13 o Aelodau | Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a'r Portffolios Cabinet a ganlyn a'u meysydd gwasanaeth priodol:-<br>• Arweinydd<br>• Dirprwy Arweinydd (heb gynnwys yr elfen Cartrefi)<br>• Adnoddau<br>• Trefniadaeth a'r Gweithlu |
| Y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd | 13 o Aelodau | Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a'r Portffolios Cabinet a ganlyn a'u meysydd gwasanaeth priodol:-<br>• Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith<br>• Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd |
| Y Pwyllgor Craffu Cartrefi, Adfywio a'r Gymraeg | 13 o Aelodau<br><br>(Gall y Pwyllgor hefyd gyfethol gweithwyr, swyddogion neu aelodau Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb neu bobl neu gyrff sy'n cydweithredu mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anhrefn, yn amodol ar ddarpariaethau Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009) | Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a'r Portffolios Cabinet a ganlyn a'u meysydd gwasanaeth priodol:-<br>• Cartrefi (heb gynnwys yr elfen Dirprwy Arweinydd)<br>• Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cymunedau, a'r Gymraeg<br>• Adfywio Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth |

Diwygiwyd gan y Cyngor 28/09/22
Cyfeiriwch hefyd at Rhan 5.7

| TEITL | AELODAU | CYFRIFOLDEBAU |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14 o Aelodau | Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a'r Portffolios Cabinet a ganlyn a'u meysydd gwasanaeth priodol:-<br><br>Aelod Cabinet dros Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion |
| Y Pwyllgor Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg | 14 o Aelodau<br>+ 5 aelod cyfetholedig sydd â phleidlais:<br>(3 rhiant lywodraethwr etholedig<br>1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru<br>1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig) | Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a'r Portffolios Cabinet a ganlyn a'u meysydd gwasanaeth priodol:-<br><br>• Addysg |

## 6.2 Cylch Gwaith Cyffredinol ar gyfer pob Pwyllgor Craffu

(ag eithrio yn achos y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a'r Craffu Cartrefi, Adfywio a'r Gymraeg , wrth ymarfer pwerau mewn perthynas â throseddau ac anhrefn, y cyfeirir atynt isod ym Mharagraffau 6.3 a 6.4 yn eu tro)

O ran materion sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau thematig a chyfrifoldebau eraill:-

1. Datblygu a chyhoeddi blaengynllun waith flynyddol, gan nodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor, gan roi sylw i Flaengynllun Waith y Cyngor.

2. Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau gweithredu a gymerwyd gan y Cabinet a/neu'r Cyngor o ran cyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau, a llunio adroddiadau i'r Cyngor a/neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau.

3. Ymarfer yr hawl i alw penderfyniadau i mewn, fel y nodir ym Mharagraff 6.7 o'r Erthygl hon.

4. Monitro perfformiad y Cabinet/yr Awdurdod wrth gyflawni targedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau monitro perfformiad rheolaidd.

5. Craffu ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau busnes gwasanaethau gan gynnwys monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau penodol.

6. Monitro cynnydd wrth gynnal adolygiadau Gwerth Gorau a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan gynnwys argymhellion o ran dewisiadau /targedau perfformiad gwasanaethau yn y dyfodol i'r Cabinet/Cyngor a monitro'r cynlluniau gweithredol dilynol.

7. Cynnal adolygiadau ar gais y Cabinet mewn ymateb i faterion a amlygwyd gan yr asesiad risg blynyddol.

8. Cymryd rhan yn yr ystyriaeth a roddir i broses yr Awdurdod o bennu'r gyllideb.

9. Cyfrannu at broses yr Awdurdod o ddatblygu ac adolygu polisi, gan gynnwys cynnig newidiadau i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel sy'n briodol.

10. Derbyn ceisiadau gan y Cabinet/Aelodau'r Cabinet i gyfrannu at broses y weithrediaeth o wneud penderfyniadau trwy gynnal adolygiadau o'r polisïau cyfredol/gwasanaethau a ddarperir, a llunio barn ar bolisïau newydd neu ddeddfwriaeth arfaethedig.

11. Cyflawni ymchwil annibynnol trwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Ymholiadau Un Diwrnod ac ati gyda'r nod o gynnal gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisi'r Cyngor.

12. Cynnal ymchwil annibynnol pellach gyda'r nod o gynorthwyo i wella'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau (a hefyd roi sylw i geisiadau a dderbyniwyd gan y Cabinet yn y maes hwn).

13. Cyfeirio materion at y Cabinet/y Pwyllgorau Craffu eraill i'w hystyried (gan eu cefnogi ag adroddiadau a chynigion sy'n seiliedig ar dystiolaeth).

~~14.~~ Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion o ran eu maes gorchwyl penodol.

15. Cwestiynu aelodau'r Cabinet a/neu bwyllgorau a'r prif swyddogion a phartneriaid am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal.

16. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

17. Mae pob Pwyllgor Craffu hefyd yn gyfrifol am fonitro gweithgareddau sefydliadau allanol a phartneriaeth perthnasol sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin, a chydgysylltu â nhw, i sicrhau cydweithio sy’n gwella buddiannau pobl leol.

18. Ystyried Deisebau a gyflwynir o dan Reol 10B o Weithdrefn y Cyngor.

## 6.3 Cylch Gwaith Ychwanegol Penodol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Lle bo materion yn rhan o gylch gwaith mwy nag un pwyllgor craffu, penderfynu ar y mater wedi ystyried adroddiadau'r pwyllgorau a chyflwyniadau gan y Cadeiryddion priodol, lle bo'r Prif Weithredwr yn barnu bod hynny'n briodol.

Datrys unrhyw anghydfod rhwng Pwyllgorau Craffu.

Cyfrannu at broses yr Awdurdod o ddatblygu ac adolygu polisi o ran materion corfforaethol a thrawsbynciol.

Cyfrannu at ddatblygu a monitro'r Strategaethau Corfforaethol a Chymunedol.

Craffu ar Gynllun Gwella yr Awdurdod a'i gymeradwyo, gan gynnwys targedau perfformiad penodol.

Craffu ar berfformiad cyffredinol y Cyngor a'i fonitro yn ôl cyfres o dargedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd yn monitro'r perfformiad.

Ystyried ymateb y Cyngor i adolygiadau a chyfrannu atynt gan gynnwys cynnal adolygiadau trawsbynciol a chraffu ar y cynnydd a'r materion a ddaw i'r amlwg yn sgil yr asesiad risg blynyddol.(Noder bod craffu yn darparu’r drafodaeth a’r dadlau mae gwelliant yn dibynnu arno, a bod archwilio yn darparu’r sicrwydd y mae addasrwydd a gweithrediad systemau a phrosesau’r Cyngor yn dibynnu arno)

Monitro'r modd y cyflenwir rhaglen effeithlonrwydd y Cyngor.

Craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

## 6.4 Cylch Gwaith Ychwanegol Penodol lle mae’r Pwyllgor Craffu Cartrefi, Adfywio a’r Gymraeg yn Ystyried Arfer Pwerau mewn Perthynas â Throseddau ac Anhrefn

(1) Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb.

(2) Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Cabinet mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb.

(3) Ystyried mewn cyfarfod o'r pwyllgor unrhyw fater trosedd ac anhrefn lleol a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan aelod o'r Cyngor. *****

Diwygiwyd gan y Cyngor 28/09/22
Cyfeiriwch hefyd at Rhan 5.7

(4) Penderfynu a fydd yn cyflwyno adroddiad neu argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Cabinet mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed gan yr aelod hwnnw ynghylch pam y dylai'r pwyllgor wneud hynny.

(5) Rhoi gwybod i'r aelod dan sylw am ei benderfyniad a'r rhesymau dros ei benderfyniad mewn unrhyw achos lle mae'r pwyllgor yn penderfynu peidio â chyflwyno adroddiad neu argymhellion mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol.

(6) Rhoi copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion gan y pwyllgor i'r aelod dan sylw (mewn perthynas â mater trosedd ac anhrefn lleol) ac i bobl neu gyrff sydd â chyfrifoldeb ac sy'n cydweithredu, yn ôl yr hyn a dybia'n briodol.

(7) Adolygu ymatebion i adroddiadau ac argymhellion gan y pwyllgor, a monitro'r camau a gymerir gan bobl neu gyrff sydd â chyfrifoldeb ac sy'n cydweithredu mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anhrefn gan yr awdurdodau sydd â chyfrifoldeb.

## 6.5 Yr Aelodaeth

Daw aelodau pob Pwyllgor Craffu o blith y Cynghorwyr hynny nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet. Nodir nifer yr aelodau ar bob pwyllgor ym Mharagraff 6.1 o'r Erthygl hon. Bydd y Pwyllgor Craffu sy'n gyfrifol am faterion Addysg yn cynnwys aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais, sef cynrychiolwyr rhiant lywodraethwr etholedig a chynrychiolwyr eglwysig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Gall y Pwyllgor Cartrefi, Adfywio a’r Gymraeg hefyd gyfethol aelodau mewn perthynas â materion trosedd ac anhrefn. Gall y Cyngor, ar argymhelliad Pwyllgorau Craffu, benodi aelodau eraill heb bleidlais i wasanaethu ar y pwyllgorau hynny.

## 6.6 Trafodion Pwyllgorau Craffu

Bydd y Pwyllgorau Craffu yn cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Craffu yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys ymgynghori lle bo angen â phwyllgorau, rhanddeiliaid neu grwpiau eraill yn y gymuned. [Cyfeiriwch hefyd at 5.7].

Yn ôl y trefniadau hyn:-

Gall unrhyw aelod o Bwyllgor Craffu, rhwng cyfarfodydd, sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i faes gorchwyl eu Pwyllgor yn cael ei roi ar yr agenda a'i drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw, i weld a yw'r Pwyllgor am ystyried y mater ymhellach. Ar ôl derbyn cais o’r fath bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar yr agenda nesaf briodol.

Bydd pob Pwyllgor Craffu yn ddarostyngedig i'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y'u nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Bydd cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r pwyllgor yn penderfynu bod gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig i'w thrafod.

Gall Pwyllgorau Craffu ofyn i aelodau'r Cabinet fynychu eu cyfarfod a'u cynorthwyo. (Nid yw'r pŵer hwn yn gyfyngedig i graffu ar benderfyniadau a gymerwyd a gellir ei ddefnyddio hefyd i holi Aelod o'r Cabinet, er enghraifft, am faterion sy'n mynd i godi yn y dyfodol, ar yr amod y rhoddir rhybudd digonol o hynny.)

## 6.7 Gweithdrefnau Galw-i-Mewn

Gall unrhyw dri aelod o'r Cyngor "alw penderfyniad gwleidyddol i mewn". Gellir "galw penderfyniad I mewn" ar yr amod:

i. nad yw'n fater brys (h.y. lle bo bygythiad i fywyd neu lle byddai bygythiad i fuddiannau ariannol neu eraill y Cyngor, neu hawliau neu fuddiannau pobl eraill, petai unrhyw oedi);

ii. ad yw'n ymwneud â materion a alwyd i mewn yn flaenorol; neu

iii. nad yw hynny'n golygu y byddai oedi anghyfreithlon cyn gallu pennu'r gyllideb.

Ac eithrio mewn achosion brys, ni fydd penderfyniad a wneir gan y Cabinet neu gan Aelod Unigol o'r Cabinet yn dod i rym cyn pen pum diwrnod gwaith clir wedi i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod a'i ddosbarthu i'r holl aelodau trwy e-bost.

Mae hyn yn rhoi cyfle i dri aelod ymarfer eu hawl i 'alw'r penderfyniad i mewn' trwy ofyn i'r Prif Weithredwr alw cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu perthnasol i roi sylw i'r penderfyniad.

Cyflawnir hyn trwy anfon at y Prif Weithredwr neu ei swyddog dynodedig (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd) o fewn y cyfnod penodedig o bum diwrnod gwaith clir, gais/e-bost wedi'i lofnodi gan o leiaf dri aelod, yn gofyn am 'alw'r mater i mewn', ac yn nodi rhesymau am hynny.

Wedyn gwneir trefniadau i gynnull cyfarfod o'r pwyllgor craffu perthnasol o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn y cais am alw'r mater(ion) i mewn. Gellir gofyn i aelodau sydd wedi ymarfer eu hawl i 'alw i mewn' i ymddangos gerbron y Pwyllgor i ymhelaethu ar eu rhesymau dros wneud hynny, ac i ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu cais.

Wedi ystyried y mater(ion) a alwyd i mewn, gall y pwyllgor craffu benderfynu:

i. Peidio â gwrthwynebu'r penderyniad, a bydd y penderfyniad felly yn dod i rym ar unwaith;

ii. Cyfeirio’r penderfyniad yn ôl i’r Cabinet, i’r Aelod o’r Cabinet perthnasol neu i’r Swyddog (pa un bynnag a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol) i gael ei ystyried ymhellach. Yna, gall y penderfyniad gael ei newid neu, ar ôl ei ailystyried, gellir ei roi ar waith heb ei newid. Yna daw’r penderfyniad i rym yn ddi-oed, ac nid oes hawl i’w alw-i-mewn eto;
iii. Cyfeirio’r penderfyniad i’r Cyngor Llawn, yn ôl i ba raddau y mae pryderon y Pwyllgor Craffu yn ymwneud â’r amgylchiadau penodol a nodir uchod, er enghraifft, os yw’r penderfyniad fel pe bai’n gwyro oddi wrth bolisi y mae’r Cyngor wedi cytuno arno.

Bydd y broses 'galw-i-mewn' yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan Weithgor Trawsbleidiol Adolygu'r Cyfansoddiad, a bydd unrhyw addasiadau a awgrymir yn derbyn sylw yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

## 6.8 Rolau a Swyddogaethau Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau Craffu

Ceir Proffiliau Swydd a Manylebau Person Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu yng Nghynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig (Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad hwn).